**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jane Bryant AS
Cadeirydd

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

SeneddPlant@senedd.cymru

17 Awst 2023

Annwyl Jane,

Yn ystod sesiwn graffu'r Gweinidogion ar addysg a sgiliau ôl-16 ar 5 Gorffennaf, dywedais y byddwn yn ysgrifennu at y pwyllgor am y niferoedd presennol sy'n ymgymryd â phrentisiaethau gradd yng Nghymru. Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth sydd ynghlwm o gymorth.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Cytunodd Gweinidog yr Economi i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor ar ehangu gradd-brentisiaethau.**

Yn ystod cyfnod peilot gradd-brentisiaethau 2018 – 2021, paratôdd Llywodraeth Cymru lwybrau mewn tri fframwaith – Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch, Technoleg Ddigidol a Pheirianneg. O'r llwybrau hyn, datblygodd prifysgolion gymwysterau megis rheoli seiberddiogelwch, peirianneg meddalwedd, peirianneg fecanyddol, gweithgynhyrchu uwch ac eraill. Mae yna 23 fframwaith yn y llyfrgell fframweithiau, ac ers cwblhau'r peilot rydym wedi dechrau ehangu ein hystod o fframweithiau a llwybrau.

Ym mis Ionawr 2024 caiff graddau peirianneg rheilffyrdd eu cyflwyno. Mae Prifysgol De Cymru yn rhagweld y bydd 20-25 o fyfyrwyr yn dechrau ar gyrsiau peirianneg rheilffyrdd yn ystod y flwyddyn. Mae llwybrau yn cael eu datblygu ym meysydd rheoli adeiladu, tirfesur cyffredinol, gwasanaeth mesur meintiau a pheirianneg sifil, gyda'r nod o lansio cyrsiau i ddechrau ym mis Medi 2024. Rydym hefyd yn ymchwilio i sut y gall gradd-brentisiaethau gefnogi blaenoriaethau sero net Llywodraeth Cymru.

Defnyddiwyd sawl ffynhonnell wybodaeth i nodi blaenoriaethau wrth ddatblygu fframwaith prentisiaethau, gan gynnwys dadansoddi'r galw mewn prifysgolion. Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol hefyd wedi nodi sectorau twf blaenoriaeth, ynghyd â thystiolaeth o'r galw am y brif raglen brentisiaethau. Mae angen sgiliau penodol hefyd ar gyfer y rhan fwyaf o bortffolios gweinidogol, ac mae swyddogion wedi gweithio ar draws y llywodraeth i nodi'r anghenion am sgiliau uwch mewn nifer o alwedigaethau sy'n gysylltiedig â buddsoddiad Llywodraeth Cymru.

Dyma'r ffigurau:

**Myfyrwyr blwyddyn gyntaf yng Nghymru ar radd-brentisiaethau a gyllidir gan CCAUC (2019/20 i 2021/22)**

| 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---:|---:|---:|
| 260 | 300 | 305 |

Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr CCAUC drwy Lywodraeth Cymru[1]

[1] Cyfrifir y data ar sail cyfwerth â pherson llawn. Talgrynnir y data i'r 5 agosaf. Mae'r data yn seiliedig ar fyfyrwyr sydd:
1. Yn y boblogaeth gofrestru safonol
2. Yn astudio gyda darparwr Addysg Uwch yng Nghymru neu yng nghanolfan genedlaethol Gymreig y Brifysgol Agored
3. Ar gynllun gradd-brentisiaeth a gyllidir gan CCAUC.
4. Yn eu blwyddyn astudio gyntaf

Nid yw'r data ar gyfer 2018/19 ar gael ar hyn o bryd.